

LLYWELYN FARDD (fl. c. 1150-75), bardd

Enw: Llywelyn Fardd
Rhiant: Cywryd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Nid hawdd sefydlu ei ganon na'i ddyddiadau. Yn *Cerdd Dafod* ceir c. 1185 - 1220, ond rhydd [J. Lloyd-Jones](#) c. 1155 - 1200. Efallai fod dau Lywelyn Fardd, y naill yn y 12fed ganrif, a'r llall yn y 13eg, ac mai dyna pam y mae'r ' Llyfr Coch ' yn rhoi ' Lywelyn Fardd fab Cywryd ' wrth un gerdd. Yr hynaf oedd hwnnw, a gwr o Feirionnydd ond odid. Ym marwnad Cedifor sonia amdano'i hun fel milwr i [Fadog ap Maredudd](#) (bu farw 1160), ac yn ei ganu i [Owain Fychan fab Madog](#) (bu farw 1187) dywaid ei fod yn hyn nag ef. Yn ei arwyrain i [Owain Gwynedd](#), dywed ' Mi fûm gennych ar dir Deheubarth,' ond ni bu [Owain](#) yn ymladd yn y De wedi 1138. Yn ôl y ' Llyfr Coch ' dyma'r bardd a ganodd farwnad teulu [Owain Gwynedd](#), ond i [Gynddelw](#) y priodolir hi yn y [The Myvyrian Archaiology of Wales](#)^[r]. Ceir gan Lywelyn Fardd amryw ddarnau crefyddol; y pwysicaf yw'r ' Canu i Gadfan,' sef molawd i eglwys Tywyn sy'n ddisgrifiad gwych o'r bywyd eglwysig yno yn ystod abadaeth Morfrân, gwr a oedd yn fyw yn 1147.

Ceir yn Hendreg. MS. a'r [The Myvyrian Archaiology of Wales](#)^[r] awdl fer i [Lywelyn ap Iorwerth](#) gan 'Lywelyn Fardd,' lle gelwir y tywysog yn ' eryr Clwyd.' Bychan clod fuasai hynny iddo yn y blynyddoedd wedi 1206. Y mae'r gerdd yn darllen fel gwaith bardd ifanc, a ' huawdl was ' y geilw'r bardd ei hun. Awgrymir mai'r ail Llywelyn Fardd oedd hwn ar gychwyn ei yrfa, ac iddo fyw i ganu hefyd i [Owain ap Gruffudd ap Gwenwynwyn](#), tywysog a oedd yn fyw mor ddiweddar â 1274.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Llawysgrif Hendregadredd (1933), 1933

The Myvyrian Archaiology of Wales (1801-1807), i, 355-362

The Poetry in the Red Book of Hergest (Llanbedrog 1911)

Henry Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd 1931)

J. Lloyd-Jones, *The Court Poets of the Welsh Princes*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Llywelyn Fardd I](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [43568812](#)

Wikidata: [Q3331180](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>^[r]

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.